


Adnodd yn seiliedig ar
bwnc

Dŵr


Cyfnod Allweddol 2 (Lefel
is)



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth gefndirol

Dŵr yw un o'r adnoddau naturiol pwysicaf ar y Ddaear ac mae'n rhaid i ni ddysgu ei amddiffyn. Mae'n bwysig deall sut mae dŵr yn troi mewn cylch, a sut mae dŵr, hyd yn oed ar ôl i ni ei ddefnyddio, yn parhau ar ei daith o amgylch y cylch. Dŵr yw un o'r adnoddau naturiol pwysicaf ar y Ddaear ac mae'n rhaid i ni ddysgu ei amddiffyn. Drwy ddysgu am y cylch dŵr byddant hefyd yn dechrau deall beth yw cymylau, sut mae gan goed ran yn y broses, a sut mae gan fodau dynol y pŵer i ymyrryd ar y broses gyfan.



Safbwynt hinsawdd

Er bod dŵr yn llifo mewn cylch mae'r cydbwysedd yn fregus, ac mae'n bwysig nad yw bodau dynol yn camddefnyddio dŵr gan y gall hyn amharu ar y cylch. Drwy ddefnyddio gormod o ddŵr mewn un ardal gall achosi sychder yn y fan honno. Pan fydd dŵr yn llifo drwy ein systemau carthffosiaeth mae'n cymryd ynni i'w

drosi'n ôl yn ddŵr glân fel y gallwn ei ailgyflwyno i'r cylch. Gwyddom mai gorddefnydd o ynni yw un o brif achosion newid yn yr hinsawdd, sydd yn ei dro yn cael effaith ar y cylch dŵr drwy godi lefel y môr. Dyma un o'r ffactorau sy'n achosi digwyddiadau tywydd eithafol yn cynnwys llifogydd. Mae'n bwysig bod plant yn deall y cylch dŵr a'u rôl wrth warchod dŵr.

Jig-so a Tai Chi'r Cylch Dŵr

Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Is)

Bydd y ddau weithgaredd yma yn helpu'r plant i ddysgu am holl rannau'r cylch dŵr heb ein cymorth. Mae'r jig-so yn rhoi cyfle iddynt weithio mewn timau i ddod â'r cyfan at ei gilydd yn llythrennol ac edrych ar y derminoleg a ddefnyddir. Mae'r gweithgaredd 'Tai Chi' yn cyflwyno mwy o symud ac yn mynd â nhw drwy'r cylch gam wrth gam. Drwy wneud symudiadau gyda'r corff cyfan a dweud y geiriau, byddant yn ei gweld hi'n haws cofio'r camau gwahanol a'r derminoleg gysylltiedig.

Deunyddiau sydd eu hangen

- Diagram o'r cylch dŵr wedi'i dorri yn ddarnau ar gyfer jig-so.



Cam 1

Jig-so'r cylch dŵr

Yn dibynnu ar nifer y plant, mae'n gweithio'n dda mewn timau gyda'r darnau jig-so wedi'u codio â lliw fel bod y timau yn dod o hyd i'w darnau eu hunain a gallant benderfynu a ydynt am helpu eraill os ydynt yn dod o hyd i ddarn tîm gwahanol.

Cyn y sesiwn, torruch y diagram o'r cylch dŵr a ddarperir yn ddarnau bach a'u cuddio o amgylch yr ardal y tu allan.

Cam 2

Cyflwynwch y sesiwn ac eglurwch i'r plant fod rhaid iddynt gydweithio i gasglu'r darnau a rhoi'r jig-so at ei

gilydd. Wrth iddynt ddod o hyd i'r darnau, gallant ddechrau rhoi'r jig-so at ei gilydd a dysgu am elfennau gwahanol o'r cylch dŵr.

Cam 3

Eglurwch y camau gwahanol i sicrhau bod pawb yn deall sut mae'n gweithio.

Cam 4



Yr haul



Sgleinio ar y dŵr



Anweddu



Cyddwyso



Llif anwedd



Dyddodi



Afonydd yn



Allan i'r Môr

Tai Chi'r Cylch Dŵr

Mae Tai Chi yn gyfuniad o anadlu, ymlacio a symudiadau llifol. Yn y gweithgaredd hwn rydym wedi cyfuno elfennau o'r cylch dŵr gyda'n fersiwn ein hunain o Tai Chi. Bydd defnyddio'r corff cyfan yn helpu'r plant i gofio a deall y prosesau gwahanol yn cynnwys y derminoleg wyddonol megis dyddodi ac anweddu.

1. Gofynnwch i'r plant sefyll mewn gwagle a chymryd anadl ddofn.
2. Estyn eu braich dde i fyny a gwahanu eu bysedd fel pelydrau'r haul - "Yr Haul".
3. Symud y fraich dde i lawr ar draws y corff, "yr haul yn sgleinio ar y dŵr".
4. Symud y breichiau ar draws y corff gan gadw eu dwylo'n isel a defnyddio eu bysedd fel crychau ar y dŵr.
5. Dechrau codi'r breichiau wedi estyn allan pob ochr i'r corff gan symud y bysedd, "mae'r dŵr cynnes yn dechrau anweddu".
6. Ar frig y cylch, dod â'r breichiau yn ôl i lawr yn gyflym i ffurfio siâp cwmwl ac ar yr un pryd codi un goes (mae hyn yn peri difyrrwch wrth i bawb geisio ymatal rhag disgyn drosodd!) "Wrth i'r aer cynnes oeri mae'r gronynnau dŵr yn ffurfio cwmwl, gelwir hyn yn cyddwyso".
7. Symud breichiau allan i'r dde (y cwmwl yn symud dros y tir) "Wrth i'r cwmwl symud dros y tir, mae'n dwysáu a thrymhau - cludiant anwedd".
8. Dod â'r breichiau i lawr gan symud y bysedd i ddangos y glaw yn disgyn "mae'r dŵr yn disgyn fel glaw, dyma yw dyddodi".
9. Defnyddio'r bysedd a'r dwylo i ddangos yr afon yn llifo ar draws y corff "wrth i'r dŵr

gasglu ar y tir mae'n llifo i mewn i nentydd ac afonydd - rhedeg i ffwrdd"
10. Estyn y breichiau i ochr chwith y corff a'u symud ar wahân "mae'r afon yn llifo ar draws y tir ac allan i'r môr"

Gwnewch yr un dilyniant sawl tro hyd nes y mae'r plant wedi'i feistrolu.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Maes Dysgu a Phrofiad - Y Dyniaethau

Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Maes Dysgu a Phrofiad - Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.


Camau nesaf a syniadau eraill

- Ymchwiliwch i'r hyn sy'n digwydd i ddŵr gwastraff ar ôl i ni ei ddefnyddio a sut y caiff ei lanhau.
- Ymchwiliwch i leoedd yn y byd nad oes ganddynt fynediad at ddŵr glân. Sut maent yn ymdopi? Beth y gellir ei wneud i helpu?

Gwefannau Defnyddiol

<https://corporate.dwrcymru.com/en/community/education/teaching-resources/primary-resources/waste-water>

<https://www.wateraid.org/uk/publications/the-water-cycle-lesson-plans>





cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850

